**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**182 – Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 12 Hydref 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 89 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 21/10/20 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"), a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

**Crynodeb**

Mae Rheoliadau 2020 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn ac yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth bresennol y Deyrnas Unedig (gan gynnwys deddfwriaeth a wnaed yn flaenorol o dan Ddeddf 2018) sy'n ymwneud â rheoli a symud, rhyddhau a marchnata organebau a

addaswyd yn enetig. Mae angen y diwygiadau hyn i weithredu Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y Cytundeb Ymadael.

Cyn y diwrnod ymadael, gwnaeth amryw is-ddeddfwriaeth fân newidiadau a newidiadau technegol i sicrhau y byddai deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig y DU sydd yn ei gorfodi yn parhau i weithio'n effeithiol. Newidiwyd cyfeiriadau at yr UE, sefydliadau'r UE a phrosesau gweinyddol yr UE i gyfateb i rai'r DU, a diweddarwyd cyfeiriadau cyfreithiol i gyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol y DU. Ers i'r darnau hynny o is-ddeddfwriaeth gael eu gwneud, mae'r DU a'r UE wedi mabwysiadu'r Cytundeb Ymadael gan gynnwys y Protocol. Mae deddfwriaeth yr UE ar Organebau a Addaswyd yn Enetig a grybwyllir uchod (ynghyd â deddfwriaeth a wnaed oddi tani) wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 i'r Protocol fel a ganlyn:

- Rheoliad (EC) No 1830/2003;
- Rheoliad (EC) No 1946/2003;
- Rhan C o Gyfarwyddeb 2001/18/EC.

Mae cynnwys deddfwriaeth yr UE hon yn Atodiad 2 i'r Protocol yn golygu bod angen newidiadau pellach i sicrhau bod rhwymedigaethau'r DU o dan y Protocol yn cael eu rhoi ar waith ac y bydd deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig sy'n ei gorfodi ym Mhrydain Fawr yn parhau i weithio'n effeithiol. Mae angen gwneud newidiadau i gyfeiriadau at y DU, sefydliadau'r DU a phrosesau gweinyddol y DU a deddfwriaeth y DU i gyfeirio at y rhai cyfatebol ym Mhrydain Fawr.
At y diben hwn, mae'r Rheoliadau'n diwygio:

- Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/88);
- Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/90);
- Rheoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/759);
- Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/778).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiad i un darn o ddeddfwriaeth yr UE (Rheoliad (EC) N0 1830/2003), a drosglwyddwyd i gyfraith y DU, hynny yw deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (fel y mae'n gymwys ym Mhrydain Fawr). Mae hyn yn diddymu darpariaeth yn y ddeddfwriaeth honno sy'n rhoi pwerau i fabwysiadu Deddfau Dirprwyedig ar Gomisiwn yr UE ac na fydd o unrhyw ddefnydd ymarferol ym Mhrydain Fawr ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 15 Hydref 2020, am effaith y Rheoliadau hyn:

(1) Er bod yr offerynnau canlynol gan yr UE yn amlwg yn rhan o'r drefn gyffredinol ar gyfer defnyddio a rheoli organebau a addaswyd yn enetig, nid yw'n glir pam eu bod wedi'u rhestru yn y datganiad fel rhai sy’n cael eu diwygio gan y Rheoliadau gan ystyried y Rheoliadau eu hunain a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig: Rhan C o Gyfarwyddeb 2001/18; Penderfyniad y Cyngor 2003/701/EC; Penderfyniad y Cyngor 2002/813 EC, a Phenderfyniad y Comisiwn 94/730/EC. Mae'r offerynnau UE eraill a restrir yn cael eu diwygio gan y Rheoliadau (er yn anuniongyrchol gan fod y Rheoliadau'n diwygio rheoliadau presennol ymadael â’r UE fel y'u rhestrir uchod).

(2) Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 65/2004 yn cael ei ddiwygio (yn anuniongyrchol) gan baragraff 4 o'r Atodlen i'r Rheoliadau, ond nid yw wedi'i restru yn y datganiad fel offeryn sy'n cael ei ddiwygio yn y modd hwnnw.

(3) Mae'r datganiad yn rhestru Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid ac Organebau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 fel rhai sy’n cael eu diwygio gan y Rheoliadau, ond ni ellir nodi diwygiad o'r fath o'r Rheoliadau eu hunain na'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.